Office for National Statistics

Y Tu Hwnt i 2011

# Y cyfrifiad a darparu ystadegau o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol

## Ymgynghoriad cyhoeddus

**Medi 2013**

BEYOND 2011 C1 CONSULTATION

Y cyfrifiad a darparu ystadegau o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol
(h) Hawlfraint y Goron

# Cynnwys

**Crynodeb** ........................................................................ 2

**1. Cyflwyniad** ................................................................... 3
**2. Dulliau gweithredu posibl ar gyfer y dyfodol** ............... 6
**3. Manteision ac anfanteision** ......................................... 8
**4. Rheoli'r risgiau** ............................................................ 12
**5. Cwestiynau'r ymgynghoriad** ........................................... 15

**Atodiad**
**Ystadegau sydd ar gael o wahanol ddulliau gweithredu**....... 18

Mae adroddiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r ddogfen hon yn cynnwys:

**C2** – Crynodeb o'r defnydd a wneir o wybodaeth o'r cyfrifiad, Medi 2013
**C3** – Crynodeb o fuddiannau gwybodaeth o'r cyfrifiad, Medi 2013.

**Am ragor o wybodaeth**
Ewch i www.ons.gov.uk a chwiliwch ar Y tu hwnt i 2011
Anfonwch e-bost atom yn beyond2011@ons.gov.uk

# Crynodeb

Bob 10 mlynedd, ers dros 200 o flynyddoedd, bu'n ofynnol i bob cartref yng Nghymru a Lloegr ymateb i'r cyfrifiad.

Llwyddodd Cyfrifiad 2011 i ddarparu ystadegau o'r boblogaeth a gaiff eu defnyddio ar gyfer y degawd nesaf gan gynllunwyr, llunwyr polisi ac ymchwilwyr ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mae ein poblogaeth yn newid yn gyflym, a bydd yr angen i ddeall y newidiadau hyn yn parhau.  Mae Rhaglen Y Tu Hwnt i 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn adolygu'r newidiadau ar hyn o bryd, a'r ffordd orau o'u diwallu yn y dyfodol.

Mae gwelliannau mewn technoleg ac yn ffynonellau data'r llywodraeth yn cynnig cyfleoedd i naill ai foderneiddio proses bresennol y cyfrifiad, neu i ddatblygu dull arall sy'n ailddefnyddio data presennol sydd gan y llywodraeth eisoes.

Mae ein hymchwil wedi pennu dau ddull o gynnal cyfrifiad yn y dyfodol:

- unwaith bob degawd, fel yr un a gynhaliwyd yn 2011, ond ar lein yn bennaf.
- gan ddefnyddio data sydd gan y llywodraeth eisoes ac arolygon blynyddol gorfodol.

Byddai'r ddau ddull yn darparu ystadegau ynghylch maint y boblogaeth, yn genedlaethol ac ar gyfer awdurdodau lleol.  Byddai cyfrifiad sy'n defnyddio data ac arolygon presennol yn darparu mwy o ystadegau ynghylch nodweddion y boblogaeth bob blwyddyn, tra byddai cyfrifiad ar lein yn darparu mwy o ystadegau manwl unwaith bob degawd.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn disgrifio'r dulliau hyn, eu cryfderau a'u gwendidau a'r gwahanol fathau o wybodaeth y gallent eu darparu.

Ni wnaed unrhyw benderfyniad eto, ac rydym yn croesawu eich safbwyntiau.

Darllenwch y ddogfen hon yn llawn ac ymatebwch gan ddefnyddio'r holiadur ar lein **erbyn 13 Rhagfyr 2013**.

Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn 2014.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Rhaglen Y Tu Hwnt i 2011
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
E-bost: Beyond2011@ons.gov.uk

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Diben yr ymgynghoriad hwn

Ar ôl pob cyfrifiad, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn adolygu'r angen am wybodaeth am y boblogaeth a thai yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol, a sut y gellid diwallu'r anghenion hyn.

Yn 2003, gwnaethom gyhoeddi cynigion am system ystadegau o'r boblogaeth yn y dyfodol a oedd yn gwneud defnydd gwell o ddata sy'n bodoli eisoes, er enghraifft y rhestr o bobl sydd wedi'u cofrestru â meddyg, yn talu treth, yn cael budd-daliadau neu sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio. Daethom i'r casgliad bryd hynny fod potensial mawr i ddefnyddio data o'r fath, a ddisgrifir yn y ddogfen hon fel 'data gweinyddol', ond nid oedd SYG yn gallu cael gafael ar ddigon o ffynonellau data i ddatblygu hyn ymhellach.

Galluogodd Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 SYG i gael gafael ar ragor o ffynonellau data allweddol ac, ar ôl Cyfrifiad 2011, sefydlwyd Rhaglen Y Tu Hwnt i 2011 er mwyn ystyried yr anghenion a'r opsiynau ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt.

Defnyddiodd ein hymchwil wybodaeth o Gyfrifiad 2011 fel llinell sylfaen er mwyn deall p'un a ellid defnyddio setiau gwahanol o ddata gweinyddol i lunio ystadegau dibynadwy yn y dyfodol.  Mae'r canfyddiadau hyd yma yn dangos bod potensial i gynnal cyfrifiad yn y dyfodol gan ddefnyddio data gweinyddol ac arolygon sampl blynyddol, yn hytrach na gofyn i bob cartref lenwi holiadur unwaith bob degawd.

Gallai'r math hwn o ddull ei gwneud yn bosibl i fesur y newid cynyddol gyflym mewn cymdeithas yn amlach na'n system bresennol. Fodd bynnag, ni allai ddarparu cymaint o fanylion am y boblogaeth a thai â'r hyn y mae'r cyfrifiad wedi'i ddarparu yn y gorffennol, ac rydym hefyd yn ystyried cynnal cyfrifiad sy'n debycach i'r un a gynhaliwyd yn 2011 - er y byddai data yn cael eu casglu ar lein yn bennaf yn hytrach nag ar bapur.

Mae cynnal cyfrifiad gan ddefnyddio data gweinyddol yn dod yn fwy cyffredin ledled y byd. Mae gwledydd Sgandinafaidd, yr Iseldiroedd, y Swistir, Awstria, Israel a'r Almaen bellach yn defnyddio systemau sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol yn bennaf.  Heb eithriad, mae gan y gwledydd hyn gofrestrau sefydledig o'r boblogaeth, ac mae'n ofyniad cyfreithiol i bawb sy'n byw yno sicrhau bod eu gwybodaeth yn gyfredol. Nid dyma'r achos yn y DU, felly mae'r wybodaeth sydd ar gael yn llai cywir, ac nid yw'n gyson rhwng ffynonellau.

Mae gwledydd eraill, fel UDA, Canada, Awstralia a Seland Newydd, yn parhau i ddefnyddio dulliau mwy traddodiadol o gynnal cyfrifiad.

Byddai cyflwyno dull o gynnal cyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon yn cynrychioli'r newid mwyaf radical yn y broses o lunio ystadegau o'r boblogaeth yng

Nghymru a Lloegr ers 1801. Felly, mae SYG yn ymgynghori ar y dulliau posibl, ac mae'r ddogfen hon yn nodi manteision ac anfanteision pob un. Gwahoddir pawb â buddiant i gymryd rhan yn y drafodaeth.

## 1.2 Gwerth gwybodaeth cyfrifiad

Mae'r cyfrifiad wedi bod yn gonglfaen system ystadegau'r DU dros y 200 mlynedd diwethaf. Mae'n darparu cyfoeth o wybodaeth gyson, gymaradwy o'r lefel genedlaethol i ardaloedd bach iawn ac ar gyfer grwpiau bach o'r boblogaeth.

Mae ystadegau o'r boblogaeth a thai yn ategu'r broses o ddyrannu biliynau o bunnoedd o arian cyhoeddus bob blwyddyn. Maent yn hanfodol i'r broses o wneud penderfyniadau, llunio polisïau a monitro canlyniadau ar draws y llywodraeth, y sector masnachol a'r gymuned ehangach.

Maent hefyd yn galluogi'r DU i gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol, pennu hawliau pleidleisio ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd ac maent yn sail ar gyfer dyrannu cymorth rhanbarthol Ewropeaidd.

Caiff amcangyfrifon blynyddol o'r boblogaeth eu llunio bob blwyddyn, yn seiliedig ar y cyfrifiad blaenorol, gydag addasiadau sy'n defnyddio gwybodaeth am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r rhain yn sail i lawer o ystadegau pwysig eraill, fel cyfraddau marwolaethau, cyfraddau ffrwythlondeb, cyfraddau diweithdra a chyfraddau damweiniau traffig ar y ffyrdd.

Mae arolygon blynyddol o gartrefi yn defnyddio gwybodaeth o'r cyfrifiad i addasu ar gyfer tuedd mewn ymatebion i'r arolwg. Byddai canlyniadau o'r Arolwg o'r Llafurlu, er enghraifft, sy'n llywio polisïau ariannol a chyllidol, yn llai dibynadwy fel arall. Mae arolygon o'r fath yn darparu gwybodaeth bob blwyddyn rhwng cyfrifiadau, ond dim ond ar lefelau cenedlaethol neu ranbarthol y gallant ddarparu gwybodaeth.

Er bod yr holl ddefnyddiau a gofynion hyn yn sicr o barhau, mae'r newid cynyddol mewn cymdeithas yn golygu bod mwy o alw am ystadegau. Yn hytrach na gofyn i bob cartref lenwi holiadur unwaith bob degawd, byddai cyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon blynyddol mawr yn darparu ystadegau amlach, ond mae gan bob dull ei fanteision a'i anfanteision, fel y disgrifir yn adran 3.

## 1.3 Y cyfrifiad fel ffynhonnell ar gyfer ymchwil hanesyddol ac achyddol

Mae llawer o bobl sy'n defnyddio gwybodaeth o'r cyfrifiad yn defnyddio'r cofnodion unigol a gaiff eu rhyddhau ar ôl 100 mlynedd o gyfrifiadau hanesyddol i gefnogi ymchwil achyddol neu hanes cymdeithasol.

Yn amlwg, bydd y byd yn lle gwahanol iawn erbyn i gofnodion Cyfrifiad 2021 gael eu rhyddhau, a bydd yr amgylchedd gwybodaeth yn wahanol y tu hwnt i bob dychymyg. Ar hyn o bryd mae'n amhosibl gwybod sut y caiff gwybodaeth o'r cyfrifiad ei defnyddio, ond mae'n amlwg y byddai cyfres o gofnodion am y boblogaeth yn werthfawr.

Rôl SYG yw llunio ystadegau yn hytrach na chofrestru unigolion neu gartrefi, ond rydym yn ymwybodol iawn o'r defnyddiau hyn o wybodaeth o'r cyfrifiad ac rydym wedi bod yn trafod opsiynau gyda'r Archifau Gwladol, sef archif swyddogol Llywodraeth y DU.

Nid yw'n glir eto beth fyddai'n bosibl pe byddem yn dechrau cynnal cyfrifiad gan ddefnyddio data gweinyddol, ond mae gennym ddiddordeb mewn clywed safbwyntiau ynghylch pa gyfleoedd a allai fod ar gael, yn ogystal â'r risgiau cysylltiedig.

## 1.4 Y broses gwneud penderfyniadau

Mae deddfwriaeth cyfrifiad yn *caniatáu* i gyfrifiad gael ei gynnal, ond nid yw'n golygu bod cyfrifiad yn *ofynnol*; mae pob cyfrifiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth gyflwyno cynigion, sydd wedi'u nodi mewn is-ddeddfwriaeth, gerbron y Senedd. Felly, mae'n ddyletswydd ar y Llywodraeth i gynnig cynnwys y cyfrifiad a'r broses o'i gynnal i'r Senedd, gan ystyried cyngor yr Ystadegydd Gwladol ac Awdurdod Ystadegau'r DU.

Felly, yn y pen draw, y Llywodraeth a'r Senedd fydd yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrifiad yn y dyfodol. Byddai cyfrifiad sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol ac arolygon yn galw am ddeddfwriaeth i'w gwneud yn haws i gael gafael ar ddata; ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i gartrefi ymateb i unrhyw arolygon newydd; a phennu sut i greu cofnodion hanesyddol at ddibenion achyddol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o sicrhau bod manteision ac anfanteision y dulliau gwahanol yn gwbl eglur. Caiff canfyddiadau'r ymchwil hon, yn cynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, eu cyhoeddi a'u cyflwyno i'r Llywodraeth yn 2014.

Nodwch y penderfynir ar y cwestiynau i'w cynnwys mewn cyfrifiad ar lein a gynhelir unwaith bob degawd, neu yn yr arolygon a fyddai'n ofynnol pe defnyddid data gweinyddol, ar wahân. Byddwn yn ymgynghori ar y rhain fel rydym wedi'i wneud ar gyfer cyfrifiadau blaenorol. At ddibenion cynllunio, rydym yn tybio y caiff cwestiynau tebyg i'r rhai yng Nghyfrifiad 2011 eu defnyddio ar gyfer y ddau ddull.

Beth bynnag fo canlyniad yr adolygiad hwn, penderfynir ar y cwestiynau a gaiff eu gofyn yn seiliedig ar yr hyn fydd yn ychwanegu'r gwerth mwyaf i ddefnyddwyr yn gyffredinol, tra'n cynnal ansawdd, yn sicrhau'r cysondeb mwyaf ag ystadegau presennol, ac yn lleihau costau a'r baich ar y cyhoedd gymaint â phosibl.

## 1.5 Cyd-destun y DU

SYG sy'n gyfrifol am ystadegau o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr, ac mae deddfwriaeth gyfredol y cyfrifiad yn rhoi rôl ffurfiol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y broses o gymeradwyo'r cyfrifiad.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mawr yn safbwyntiau defnyddwyr o Gymru ynghylch y dulliau gwahanol a chaiff unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad eu hanfon i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am eu cyfrifiadau eu hunain ac maent yn gwneud eu hymchwil eu hunain. Mae'r holl weinyddiaethau datganoledig yn cydweithredu'n agos er mwyn rheoli cysondeb ystadegau'r DU.

# 2. Dulliau gweithredu posibl ar gyfer y dyfodol

Mae nifer o ddulliau wedi cael eu hystyried gan raglen Y Tu Hwnt i 2011, ac mae pob un wedi cael ei asesu yn erbyn cyfres o feini prawf gwerthuso a gyhoeddwyd yn cynnwys ansawdd ystadegol, cost, ymarferoldeb technegol a chyfreithiol, derbynioldeb ymhlith y cyhoedd a'r baich ar y cyhoedd.

Mae hyn wedi arwain at ddau ddull posibl o gynnal y cyfrifiad yn y dyfodol:

- Cyfrifiad unwaith bob degawd, fel yr un a gynhaliwyd yn 2011, ond ei fod ar lein yn bennaf.
- Cyfrifiad yn seiliedig ar ddata gweinyddol ac arolygon gorfodol blynyddol mawr.

Caiff y dulliau hyn eu crynhoi ym Mlychau A a B. Disgrifir yr ystadegau y byddai pob dull yn eu darparu yn fanylach yn yr Atodiad.

## Blwch A: Cyfrifiad ar lein unwaith bob degawd

**Beth yw hwn?**

**Casgliad o wybodaeth gan bob cartref yng Nghymru a Lloegr unwaith bob degawd.**

- Byddai'r mwyafrif o ymatebion ar lein a byddai'n rhaid i gartrefi ymateb.
- Fel yn 2001 a 2011, byddai arolwg sy'n cwmpasu tua 1% o'r boblogaeth yn cael ei ddefnyddio i addasu ar gyfer y rheini na wnaethant ymateb.
- Byddai'r cyfrifiad hefyd yn cwmpasu preswylwyr 'sefydliadau cymunedol' fel neuaddau preswyl prifysgolion a chanolfannau milwrol.
- Byddai data gweinyddol yn cael eu defnyddio i helpu i sicrhau ansawdd yr ystadegau terfynol.
- Byddai amcangyfrifon blynyddol o'r boblogaeth yn cael eu llunio fel y gwneir nawr fwy neu lai, gan ddefnyddio gwybodaeth am enedigaethau a marwolaethau, a gwybodaeth am fudo gan ddefnyddio'r Arolwg Rhyngwladol o Deithwyr a data gweinyddol. Byddai rôl data gweinyddol yn parhau i gynyddu dros amser.

**Beth mae'n ei ddarparu?**

- Byddai'r dull hwn yn darparu ystod o gynnyrch bob 10 mlynedd ar amrywiaeth eang o bynciau, yn debyg i'r hyn a luniwyd o Gyfrifiad 2011.
- Byddai cynnyrch yn cael ei lunio ar gyfer amrywiaeth o fathau o ardaloedd daearyddol, i ardaloedd bach iawn (grwpiau o ambell god post o'r enw 'Ardaloedd Cynnyrch') ac ar gyfer grwpiau bach o'r boblogaeth.
- Byddai croesdablau manwl yn cael eu llunio ar gyfer amrywiaeth eang o bynciau, gyda chywirdeb sy'n debyg i gynnyrch Cyfrifiad 2011.

## Blwch B: Cyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon

**Beth yw hwn?**

**Ailddefnyddio data gweinyddol, gydag arolygon cartrefi gorfodol blynyddol.**

- Byddai data gweinyddol sydd gan y llywodraeth eisoes yn cael eu defnyddio gan SYG i lunio amcangyfrif blynyddol o'r boblogaeth mewn ardaloedd lleol.
- Mae'r ffynonellau yr ymchwilir iddynt ar hyn o bryd yn cynnwys y rheini sydd gan yr Adran Iechyd, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM, yr Adran Addysg, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Nid oes yr un o'r ffynonellau hyn yn rhoi cyfrif cwbl gywir o'r boblogaeth felly byddai arolwg blynyddol gorfodol o tua 1% o gartrefi yn cael ei ddefnyddio i addasu ar gyfer y rheini na chânt eu cynnwys yn y data gweinyddol, neu a gaiff eu cofnodi yn y lleoliad anghywir.
- Ni all data gweinyddol roi digon o wybodaeth am nodweddion y boblogaeth a ddarparwyd yn flaenorol gan y cyfrifiad fel ethnigrwydd, neu'r ieithoedd a siaredir, felly byddai angen cynnal ail arolwg gorfodol o tua 4% o gartrefi bob blwyddyn.
- Gallai holiadur yr arolwg fod yn debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer Cyfrifiad 2011, ond bod lle i'w ddiweddaru'n fwy rheolaidd. Byddai'r rhan fwyaf o ymatebion yn cael eu casglu ar lein.
- Byddai arolwg blynyddol gorfodol ar wahân yn cael ei gynnal i gwmpasu preswylwyr 'sefydliadau cymunedol' fel neuaddau preswyl prifysgolion a chanolfannau milwrol.

**Beth mae'n ei ddarparu?**

- Byddai'r dull hwn yn darparu ystadegau bob blwyddyn ar agweddau allweddol ar y boblogaeth a'r stoc dai.
- Byddai'r mwyafrif o ystadegau ynghylch nodweddion y boblogaeth ym mhob Awdurdod lleol yn cael eu llunio gan ddefnyddio blwyddyn o ddata arolwg.
- Pan fyddai'r arolwg wedi bod yn rhedeg ers rhai blynyddoedd, byddai ystadegau ar gyfer ardaloedd llai o fewn awdurdodau lleol, fel wardiau etholiadol, yn cael eu llunio bob blwyddyn, drwy gyfuno data tair blynedd neu bum mlynedd o'r arolwg.
- Byddai cyfres gyfyngedig o amcangyfrifon sylfaenol yn ôl oedran a rhyw ar gael ar gyfer grwpiau bach o godau post, ond ni fyddai'r ystadegau mwyaf manwl ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch a ddarparwyd gan y cyfrifiad yn y gorffennol ar gael gan ddefnyddio'r dull hwn.

# 3. Manteision ac anfanteision

Byddai'r ddau ddull o gynnal cyfrifiad yn llunio cyfresi gwahanol o ystadegau, a byddai ganddynt fanteision ac anfanteision gwahanol. Disgrifir ein hasesiad o'r rhain isod.

## Cyfrifiad ar lein unwaith bob degawd

### Cryfderau

Mae'r cyfrifiad yn darparu **cyfres gyfoethog o ystadegau ar gyfer amrywiaeth o ardaloedd daearyddol** - yn genedlaethol, ar gyfer Awdurdodau Lleol, ar gyfer wardiau a grwpiau o ambell god post (tua 125 o gartrefi fel arfer). Mae'n rhoi croesdablau manwl ar gyfer amrywiaeth eang o bynciau.

Gan ei bod yn ofynnol i bob cartref lenwi holiadur, mae'r cyfrifiad **yn llwyddo i ddarparu ystadegau manwl ar gyfer ardaloedd daearyddol bach**.

**Mae'r cyfrifiad yn ddull cyfarwydd a brofwyd** yn y DU ac yn rhyngwladol - 2011 oedd y 22ain cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr a chafodd ei gynnal yn llwyddiannus iawn.

Mae'r cyfrifiad yn sicrhau **cryn gysondeb** â'r ystadegau a ddarparwyd gan gyfrifiadau blaenorol ac felly mae'n cefnogi dadansoddiad manwl o newid dros amser.

Mae'r un dyddiad cyfeirio yn golygu bod y cyfrifiad yn rhoi **'cipolwg' unigol o safon** ar y genedl.

### Gwendidau

**Dim ond unwaith bob 10 mlynedd y mae'r cyfrifiad yn llunio ystadegau**. Mae SYG yn defnyddio data ar enedigaethau, marwolaethau a mudo i roi amcangyfrifon wedi'u haddasu o faint y boblogaeth bob blwyddyn, ond dim ond bob 10 mlynedd y caiff y mwyafrif o ystadegau eu cyhoeddi. Ar gyfer rhai pynciau, ac mewn ardaloedd lle mae'r newid yn gyflym neu'n gymhleth, mae hyn yn gwneud yr ystadegau yn llai defnyddiol. Er enghraifft, ni ddeallwyd y twf yn y boblogaeth a ddeilliodd o ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn 2004 yn llwyr nes 2012.

**Mae'r cyfrifiad ar lein yn costio mwy na defnyddio data gweinyddol ac arolygon** - amcangyfrifir bod y gost hirdymor tua £625 miliwn (prisiau 2013) dros bob cyfnod o 10 mlynedd. Mae hyn yn cyfateb i £1.10 y pen bob blwyddyn, ac mae'n gymaradwy â gwledydd eraill.

Mae'r cyfrifiad yn ddigwyddiad pwysig ac mae angen recriwtio nifer fawr o staff. Cyflogodd Cyfrifiad 2011 tua 40,000 o staff ar ei anterth - dim ond am chwe wythnos y cyflogwyd y mwyafrif. **Mae graddau a natur gylchol y cyfrifiad yn golygu bod y cyfnod sy'n arwain ato a'r cyfnod sy'n ei ddilyn yn heriol** o ran prosesau rheoli a'i effaith ariannol. Gallai proffil mwy sefydlog lle cafodd sgiliau eu cadw fod yn fwy effeithlon.

**Mae'r cyfrifiad yn rhoi baich ar bob cartref** gan fod angen i bob cartref ymateb. Dim ond nifer gyfyngedig o gwestiynau y gellir eu gofyn, ac nid yw'n cynnwys cwestiynau fel incwm y cartref.

## Cyfrifiad ar lein unwaith bob degawd - *parhad*

### Cyfleoedd

Mae casglu data'r cyfrifiad ar lein yn golygu y gellir **prosesu data yn gyflymach ac yn fwy effeithlon**, o gymharu â'r amser a'r gost sy'n gysylltiedig â phrosesu dros 20 miliwn o holiaduron papur.  Nodwyd bod yr ymatebion ar lein i Gyfrifiad 2011 yn darparu data o safon uwch na'r ymatebion o'r holiaduron papur.

### Risgiau

Y profiad rhyngwladol, a adlewyrchir hefyd yn y DU, yw ei bod yn **dod yn anoddach i gyflawni lefelau ymateb uchel i gyfrifiad**. Roedd Cyfrifiad 2011 yn llwyddiannus a chafodd ymateb tebyg i Gyfrifiad 2001, ond am gost uwch o lawer - tua 35% yn fwy mewn termau real. Mae'n debygol y bydd y duedd hon yn parhau.

Nid oes gan bob cartref fynediad i'r rhyngrwyd, ac **mae dull ar lein yn peri'r risg o eithrio rhai pobl a chartrefi**. Dim ond 16% o gartrefi a lenwodd holiadur Cyfrifiad 2011 ar lein, a byddai angen cyflwyno newidiadau yn raddol. Byddai modd ymateb mewn ffyrdd eraill o hyd.

Mae rhai pobl o'r farn bod y cyfrifiad yn **tresmasu ar breifatrwydd**, a bod rhai o'r cwestiynau a ofynnir yn rhy ymwthiol. Fel gyda phob cyfrifiad blaenorol, byddai SYG yn cymryd mesurau helaeth i ddiogelu preifatrwydd (fel y trafodwyd yn adran 4).

| Cyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon |
|---|
| **Cryfderau** |
| Byddai ystadegau yn seiliedig ar ffynonellau llywodraeth a ddiweddarir yn barhaus, felly byddai'n bosibl llunio amcangyfrifon o'r boblogaeth (cyfrifon yn ôl oedran a rhyw) ar gyfer Cymru a Lloegr, ar gyfer pob Awdurdod Lleol ac ar gyfer ardaloedd o faint wardiau etholiadol **bob blwyddyn**.<br><br>Yn yr un modd, gan y byddai ystadegau ynghylch *nodweddion* y boblogaeth yn cael eu llunio gan ddefnyddio arolwg gorfodol, gellid llunio'r rhain bob blwyddyn - er nid mor fanwl â chyfrifiad ar lein unwaith bob degawd.<br><br>Byddai cynnyrch blynyddol **yn golygu y gellid nodi newidiadau a thueddiadau** fel twf yn y boblogaeth neu fudo **yn gyflymach** na'r hyn sy'n bosibl gyda chyfrifiad bob deng mlynedd.<br><br>**Byddai'r dull hwn yn costio llai na chyfrifiad ar lein unwaith bob degawd**, ond byddai costau ynghlwm wrth gynnal arolygon blynyddol o hyd. Amcangyfrifir y byddai system newydd dros gyfnod o ddeng mlynedd yn costio tua £460 miliwn (prisiau 2013), sy'n cyfateb i 80 ceiniog y pen bob blwyddyn. Caiff yr amcangyfrif hwn ei adolygu wrth i'r ymchwil fynd rhagddi.<br><br>Byddai'r ateb hwn yn dibynnu'n rhannol ar y broses o ailddefnyddio data a gasglwyd gan y llywodraeth eisoes. Byddai'r arolygon newydd yn cwmpasu tua 50 y cant o'r boblogaeth dros ddegawd, felly **byddai'r dull hwn yn lleihau'r baich ar gartrefi.** |
| **Gwendidau** |
| **Ni fyddai ateb data gweinyddol byth yn llunio'r ystadegau mwyaf manwl sydd ar gael o gyfrifiad ar lein unwaith bob degawd.** Ni fyddai arolwg blynyddol o tua 4% o'r boblogaeth yn darparu ystadegau ar gyfer grwpiau bach o godau post, a byddai'r ystadegau ar gyfer wardiau yn llai manwl.<br><br>Ar gyfer llawer o bynciau, byddai angen cyfuno sawl blwyddyn o ddata arolygon, yn enwedig i lunio ystadegau ar gyfer ardaloedd mor fach â wardiau etholiadol. **Mae hyn yn golygu y byddai'r dyddiad y byddai'r ystadegau yn cyfeirio ato yn llai clir.** Mae profiad o arolwg tebyg a ddefnyddiwyd yn UDA yn awgrymu bod hyn yn ychwanegu cymhlethdod at y broses o ddehongli ystadegau.<br><br>**Ni fyddai'r dull hwn yn arwain at gofnod hanesyddol manwl o bobl a chartrefi a ddefnyddir gan haneswyr teulu ac ymchwilwyr hanesyddol eraill.** Gall archifo ffynonellau gweinyddol gynnig dull amgen, ond nid oes dull wedi cael ei ddatblygu eto.<br><br>**Byddai angen deddfwriaeth newydd** ar gyfer dulliau sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon, er mwyn sicrhau bod data gofynnol ar gael a bod arolygon yn orfodol. |

Office for National Statistics

## Cyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon - parhad

### Cyfleoedd

Fel gyda'r cyfrifiad, gallai arolygon ond ofyn nifer gyfyngedig o gwestiynau, ac ni fyddent yn cynnwys cwestiynau fel incwm y cartref. Fodd bynnag, dros amser **dylai fod yn bosibl ehangu'r defnydd o ddata gweinyddol i gwmpasu pynciau nad oeddent wedi'u cwmpasu yn yr arolwg**. Er enghraifft, gallai cofnodion treth dienw ddarparu ystadegau lleol ar incwm y cartref - angen defnyddiwr a nodir yn aml na all cyfrifiad ar lein ei ddiwallu.

Mae gan arolwg cenedlaethol blynyddol y **potensial i fod yn fwy hyblyg na chyfrifiad ar lein o ran y cwestiynau a ofynnir**. Byddai'n rhoi cyfle i addasu cwestiynau i ymateb i anghenion newidiol.

Gallai archifo setiau data gweinyddol arwain at **gyfleoedd newydd ar gyfer ymchwil hanesyddol ymhen 100 mlynedd**. Er enghraifft, gallai fod yn bosibl archifo ffynonellau yn amlach nag unwaith bob degawd.

### Risgiau

Byddai'r dull hwn **yn dibynnu ar nifer o fesurau newydd sy'n rhannol heb eu profi**. Er bod ymchwil gynnar wedi esgor ar ganlyniadau addawol, mae newid dull ar y raddfa hon yn galw am waith helaeth i ddatblygu dulliau ystadegol a systemau cyfrifiadurol newydd. Y profiad a gafwyd mewn gwledydd sydd wedi cymryd y fath gam, er enghraifft Denmarc, Sweden a'r Ffindir, yw y gall gymryd nifer o ddegawdau.

**Byddai unrhyw newid yn arwain at beth diffyg cysondeb ag ystadegau a luniwyd yn flaenorol.** Mae'n anochel y bydd dulliau newydd yn arwain at rai gwahaniaethau mewn canlyniadau, a byddai'n anodd gwybod p'un a oedd newidiadau ymddangosol yn y boblogaeth yn wirioneddol ai peidio.

**Byddai'r dull yn dibynnu ar gael gafael ar y data gweinyddol gofynnol**, a byddai hefyd yn agored i newidiadau yng nghwmpas y boblogaeth a gaiff ei chynnwys a'r eitemau data a gasglwyd yn y systemau gweinyddol. Bydd newidiadau diweddar i hawliad budd-dal plant er enghraifft yn golygu na fydd rhai plant yn cael eu cynnwys mewn data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn y dyfodol.

Fel gyda'r cyfrifiad ar lein, mae risg y **byddai'n anodd cyflawni'r gyfradd ymateb ofynnol i'r arolygon newydd.** Eto, y profiad rhyngwladol a gafwyd yw bod cyfraddau ymateb i arolygon yn gostwng dros amser, ac mae gan rai arolygon gwirfoddol a gynhelir gan SYG gyfraddau ymateb o tua 60% ar hyn o bryd, o gymharu â thua 80% yn y 1980au.

Byddai'r dull hwn **yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyhoedd dderbyn y defnydd o ddata gweinyddol at ddibenion ystadegol**. Mae dwyn data ynghyd o ffynonellau lluosog yn codi pryderon ynghylch preifatrwydd i rai pobl. Byddai SYG yn cymryd mesurau helaeth i ddiogelu preifatrwydd, fel y trafodir yn adran 4.

# 4. Rheoli'r risgiau

## 4.1 Rheoli risgiau cyfrifiad ar lein unwaith bob degawd

Byddai cyfrifiad ar lein unwaith bob degawd, er ei fod yn ddull gwahanol o gasglu data, yn debyg i Gyfrifiad 2011, sy'n ddull dibynadwy.

Fodd bynnag, gall y risg o gyfraddau ymateb is ofyn am gynyddu'r buddsoddiad bob degawd, a gallai, yn y pen draw, arwain at ostyngiad yn yr ymateb i'r graddau ei fod yn niweidio ansawdd yr ystadegau a gaiff eu llunio. Un opsiwn, pe byddai hyn yn digwydd, fyddai defnyddio data gweinyddol yn lle holiaduron wedi'u cwblhau ar gyfer y cyfeiriadau unigol a fethodd ag ymateb. Mae dull o'r fath yn cael ei ystyried mewn gwledydd eraill.

Gellid rheoli'r risg o eithrio pobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd drwy ddarparu holiaduron papur, galluogi pobl i'w llenwi dros y ffôn, neu gasglu ymatebion drwy gyfweliadau ar garreg y drws.

Y prif reswm pam mai dim ond 16% o gartrefi a gwblhaodd Cyfrifiad 2011 ar lein oedd bod pob cartref wedi cael holiadur papur. Roedd hyn yn debyg i Gyfrifiad 2006 yng Nghanada, lle ymatebodd 18% o gartrefi ar lein.

Ar ôl cael y cyfle i gyflwyno'r opsiwn o ddefnyddio'r rhyngrwyd yn 2006, cynhaliwyd Cyfrifiad 2011 yng Nghanada yn bennaf ar lein (cynhelir cyfrifiadau bob pum mlynedd yng Nghanada). Ymatebodd 54% o gartrefi ar lein, gyda chyfradd ymateb gyffredinol o 98%. Mae hyn yn awgrymu y gellid rheoli risgiau symud i ddull ar lein yn bennaf yn 2021.

## 4.2 Rheoli risgiau cyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon

**Dulliau gweithredu newydd a diffyg cysondeb mewn canlyniadau**

Ni chaiff y risgiau sy'n gysylltiedig â dulliau newydd eu deall cystal, ac efallai na fydd dulliau newydd yn gweithio yn union fel y bwriadwyd i ddechrau.

Yn yr un modd, efallai na fyddwn yn gallu deall yn llwyr unrhyw achosion o ddiffyg cysondeb yn yr ystadegau o gymharu ag amcangyfrifon o'r boblogaeth mewn blynyddoedd blaenorol.

Office for National Statistics

Byddai cyfnod pontio 'cyd-redeg', gan symud tuag at gyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon, ond hefyd gyda chyfrifiad ar lein sy'n cwmpasu pob cartref yn 2021, yn ein galluogi i gymharu canlyniadau system newydd â chanlyniadau dulliau blaenorol.  Fodd bynnag, byddai hyn yn cynyddu costau yn ystod y cyfnod pontio, a byddai'n cynyddu'r baich ar y cartrefi y byddai'n ofynnol iddynt ymateb i'r cyfrifiad ar lein a'r arolygon newydd. Mae'n bosibl y gellid cynnwys llai o gwestiynau er mwyn lleihau'r baich ar y cyhoedd.

Yn 2021 byddai'n ofynnol i ni gasglu holiaduron gan o leiaf 10% o gartrefi er mwyn ein galluogi i gymharu dulliau newydd a hen ddulliau, ond hyd yn oed wedyn byddai rhai risgiau'n bodoli o hyd.  Byddai hyn hefyd yn rhoi baich ychwanegol ar y cartrefi hyn.

Mae ein hymchwil wedi dangos mai mewn dinasoedd mawr y mae'r gwaith o lunio ystadegau gan ddefnyddio data gweinyddol anoddaf, am fod y boblogaeth yn newid gyflymaf yn yr ardaloedd hyn ac mae data gweinyddol yn tueddu i fod angen eu diweddaru. Mae'n bosibl y gellid cynnal cyfrifiad ar lein yn yr ardaloedd hyn yn unig er mwyn gweld a oedd y dulliau newydd yn gweithio.

**Cael gafael ar ddata a chyfraddau ymateb i arolygon**

Er mwyn rheoli risgiau cael gafael ar ddata, byddai angen deddfwriaeth newydd er mwyn rhoi caniatâd i SYG gael y setiau data gofynnol gan adrannau eraill o'r llywodraeth, a rhoi rôl ffurfiol i SYG wrth benderfynu ar newidiadau i ffynonellau data allweddol.  Mae gan Iwerddon, yr Iseldiroedd a'r gwledydd Sgandinafaidd ddeddfwriaeth o'r fath.

Byddai'r risg o gyfraddau ymateb is yn golygu y byddai'n rhaid i arolygon fod yn orfodol - unwaith eto, byddai angen deddfwriaeth newydd ar gyfer hyn. Ni fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r risg yn llwyr, ond gellid defnyddio data o ffynonellau gweinyddol i ddeall nodweddion allweddol y rheini na wnaethant ymateb a gwneud addasiadau.

## 4.3 Derbynioldeb y cyhoedd a phreifatrwydd

Mae diogelu data personol cyfrinachol yn egwyddor sylfaenol ar gyfer pob gweithgaredd ystadegol.  Mae'n arbennig o bwysig i'r cyfrifiad, p'un a yw'n gyfrifiad ar lein unwaith bob degawd neu'n gyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon, am fod data'n cael eu casglu o'r boblogaeth gyfan.

Mae gan SYG hanes sicr o ddiogelu'r data personol o gyfrifiadau ac arolygon eraill, ac nid yw'n rhyddhau data personol o'r cyfrifiad am 100 mlynedd. Bydd hyn yn parhau, beth bynnag fo canlyniad yr adolygiad hwn.

Caiff y data sydd gan SYG eu diogelu yn unol â'r gyfraith o dan Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007.  Gall unrhyw achos o ddatgelu data personol heb awdurdod arwain at gosb o hyd at ddwy flynedd o garchar.

Pe byddai cyfrifiad yn cael ei gynnal gan ddefnyddio data gweinyddol ac arolygon yn y dyfodol, cyn dwyn data o ffynonellau lluosog ynghyd, byddai SYG yn defnyddio codau unigryw na ellid eu hadnabod yn lle'r enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni yn y data gweinyddol. Byddem hefyd yn cymryd mesurau sylweddol i reoli mynediad i ddata. Mae hyn yn gyson â chanllawiau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd papur ar wahân yn rhoi rhagor o fanylion am hyn.

Cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd gydag amrywiaeth o arbenigwyr diogelwch a phreifatrwydd a sefydlwyd Grŵp Cynghori ar Breifatrwydd.

Adolygwyd y dulliau a ddefnyddiwyd i ddiogelu data Cyfrifiad 2011 yn annibynnol a chyhoeddwyd y canfyddiadau. Nododd yr arolwg hwn fod SYG wedi cydymffurfio'n llwyr â gofynion diogelu data a gofynion diogelwch y llywodraeth ac y gallai'r cyhoedd fod yn sicr bod y wybodaeth a ddarparwyd ganddynt wedi'i diogelu'n llwyr.

Byddwn yn cynnal adolygiad tebyg ar gyfer unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â'r cyfrifiad yn y dyfodol.

# 5. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich safbwyntiau am y defnydd a wneir o wybodaeth o'r cyfrifiad a'r buddiannau sy'n deillio o hyn, ynghyd â manteision ac anfanteision y ddau ddull o gynnal cyfrifiad a ddisgrifir yn y ddogfen hon - at ddibenion ystadegol a hanesyddol.

Mae'n adeiladu ar ein hymchwil dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ddeall sut mae pobl yn defnyddio gwybodaeth o'r cyfrifiad, a'r buddiannau sy'n deillio o'r fath ddefnydd i gymdeithas a'r economi. Crynhoir canfyddiadau'r ymchwil hon yn ein crynodeb o'r defnydd a wneir o wybodaeth o'r cyfrifiad , sy'n cynnwys defnydd ar gyfer ymchwil achyddol a hanesyddol, a'n crynodeb o fuddiannau gwybodaeth o'r cyfrifiad. Nid oes rhaid i chi ymateb i'r holl gwestiynau.

## 5.1 Sylwadau cyffredinol

**C1:** Beth yw eich safbwyntiau ar y gwahanol ddulliau o gynnal cyfrifiad a ddisgrifir yn y ddogfen hon?

## 5.2 Y defnydd a wneir o ystadegau o'r boblogaeth a thai a buddiannau hynny

Mae dealltwriaeth dda o ddefnyddiau a buddiannau yn hanfodol er mwyn deall rhinweddau cysylltiedig pob dull. Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn i chi ddweud wrthym am unrhyw ddefnyddiau neu fuddiannau a geir o ystadegau'r cyfrifiad nad ydym wedi eu deall yn llwyr eto.

Yn eich atebion, rhowch gymaint o dystiolaeth â phosibl. Mae defnyddiau sy'n bodloni gofyniad rheoliadol neu gyfreithiol hefyd o ddiddordeb arbennig.

**C2:** Nodwch unrhyw ddefnyddiau pwysig a wneir o ystadegau o'r boblogaeth a thai nad ydym wedi'u nodi eisoes.

**C3:** Nodwch unrhyw fuddiannau ychwanegol pwysig a geir o ystadegau o'r boblogaeth a thai nad ydym wedi'u nodi eisoes.

## 5.3 Effaith dulliau gwahanol o gynnal cyfrifiad ar y defnydd a wneir o ystadegau

Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn am eich safbwyntiau ar yr effaith wirioneddol y byddai'r dulliau gwahanol o gynnal cyfrifiad yn ei chael ar benderfyniadau gweithredol neu fusnes.

**C4:** Beth fyddai'r effaith os na fyddai'r ystadegau manylaf ar gyfer ardaloedd daearyddol bach iawn a grwpiau bach o'r boblogaeth ar gael mwyach? Effaith fawr, ganolig, fach neu dim effaith o gwbl?

**C4.1** Os byddwch yn nodi effaith ganolig neu fawr, rhowch ragor o wybodaeth.

**C5:** Beth fyddai'r budd ychwanegol os byddai ystadegau ynghylch nodweddion y boblogaeth ar gael yn amlach (h.y. bob blwyddyn) ar gyfer ardaloedd fel Awdurdodau Lleol a Wardiau Etholiadol? Effaith fawr, ganolig, fach neu dim effaith o gwbl?

**C5.1** Os byddwch yn nodi effaith ganolig neu fawr, rhowch ragor o wybodaeth.

## 5.4 Effaith dulliau gwahanol o gynnal cyfrifiad ar ymchwil hanesyddol

Mae SYG wedi gweithio gyda'r Archifau Gwladol ac achyddion i ddeall sut y defnyddir gwybodaeth o'r cyfrifiad mewn ymchwil hanesyddol. Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn i chi ddweud wrthym am unrhyw ddefnyddiau a wneir o wybodaeth o'r cyfrifiad neu fuddiannau a ddaw yn sgil hynny nad ydym wedi'u deall yn llwyr eto ac i rannu eich safbwyntiau ar effaith bosibl y gwahanol ddulliau o gynnal cyfrifiad.

**C6:** Nodwch unrhyw ddefnydd pwysig a wneir o wybodaeth o'r cyfrifiad ar gyfer ymchwil hanesyddol nad ydym wedi'i nodi eisoes.

**C7:** Pa fanteision neu anfanteision ar gyfer ymchwil achyddol neu hanesyddol y gallwch eu gweld yn sgil cyflwyno ateb sy'n seiliedig ar archifo ffynonellau data gweinyddol?

## 5.5 Rheoli risgiau

Fel y disgrifir yn adran 3, mae risgiau a chyfleodd yn gysylltiedig â'r ddau ddull o gynnal cyfrifiad. Mae'r cwestiynau hyn yn cynnig cyfle i roi sylwadau ar y rhain ac i godi unrhyw faterion eraill.

**C8:** Beth yw eich safbwyntiau ar y risgiau sy'n gysylltiedig â phob dull o gynnal cyfrifiad a sut y gellid eu rheoli?

**C9:** A oes unrhyw faterion eraill y dylem eu hystyried yn eich barn chi?

## 5.6 Sut i ymateb

Cyflwynwch eich safbwyntiau drwy'r arolwg ar lein erbyn 13 Rhagfyr 2013.

Caiff yr holl ymatebion sy'n ymwneud â'r defnydd a wneir o wybodaeth o'r cyfrifiad yng Nghymru eu rhoi i Lywodraeth Cymru a chaiff yr holl ymatebion eu cyhoeddi, oni fyddwch yn nodi fel arall.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o ddeialog barhaus, a fydd yn parhau hyd nes i ni gyhoeddi ein canfyddiadau yn 2014.

Mae rhagor o wybodaeth, yn cynnwys adroddiadau ymchwil niferus, ar gael ar dudalennau Y Tu Hwnt i 2011 gwefan SYG.

Os hoffech drafod unrhyw elfen o'r gwaith hwn, cysylltwch â ni yn Beyond2011@ons.gov.uk

# Atodiad:
# Ystadegau sydd ar gael o wahanol ddulliau

Mae'r atodiad hwn yn rhoi rhagor o fanylion am y mathau o ystadegau a fyddai ar gael gan ddefnyddio'r dulliau gwahanol o gynnal cyfrifiad.

Er mwyn gwneud hyn, mae'n ddefnyddiol disgrifio’n gyntaf y prif ardaloedd daearyddol a ddefnyddir i gyhoeddi ystadegau o'r boblogaeth. Gweler Blwch D.

| BLWCH D: Crynodeb o'r prif ardaloedd daearyddol a ddefnyddir i gyhoeddi ystadegau'r cyfrifiad |
| --- |
| **OA - Ardal Gynnyrch** - Grwpiau o godau post sydd â chyfanswm poblogaeth o rhwng 100 a 625 o bobl, 300 ar gyfartaledd. Defnyddir OAs ledled y DU fel yr uned sylfaenol o gynnyrch y cyfrifiad.<br>**LSOA - Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is** - Cyfanswm y boblogaeth rhwng 1,000 a 3,000 o bobl, 1,600 ar gyfartaledd. Mae pob LSOA yn cynnwys nifer o OAs.<br>**MSOA - Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol** - Cyfanswm y boblogaeth rhwng 5,000 a 15,000 o bobl, 7,800 ar gyfartaledd. Mae pob MSOA yn cynnwys nifer o LSOAs. Maent yn debyg o ran maint i ward etholiadol gyfartalog - er bod llawer mwy o amrywioldeb ym maint y wardiau etholiadol.<br>**ALl - Awdurdod Lleol** - Cyfanswm y boblogaeth rhwng 2,000 a miliwn o bobl, 160,000 ar gyfartaledd. Mae pob ALl yn cynnwys nifer o MSOAs. |

## A.1 Ystadegau sydd ar gael o gyfrifiad ar lein unwaith bob degawd

### Amcangyfrifon o'r boblogaeth

Byddai cyfrifiad ar lein unwaith bob degawd yn darparu amcangyfrifon lefel uchel o faint y boblogaeth yn ôl oedran a rhyw (o lefel genedlaethol i lefel OA) a chyfoeth o ystadegau manwl am nodweddion y boblogaeth a thai. Caiff cyfanswm o bron i bum biliwn o ystadegau unigol eu cyhoeddi o Gyfrifiad 2011, gan roi croesdablau manwl iawn ar gyfer ardaloedd daearyddol bach ac is-grwpiau bach o'r boblogaeth, a fyddai'n parhau os byddwn yn cael cyfrifiad ar lein yn y dyfodol.

Bob blwyddyn rhwng cyfrifiadau, mae SYG yn llunio amcangyfrifon ar gyfer awdurdodau lleol drwy:

- adio nifer y genedigaethau
- tynnu nifer y marwolaethau
- addasu ar gyfer mudo pobl yng Nghymru a Lloegr
- addasu ar gyfer mewnfudo ac ymfudo.

Nid yw'r ystadegau mor gywir ar ddiwedd y ddegawd o gymharu â'r dechrau, a dyna fyddai'r achos o hyd.

Office for National Statistics

Byddem hefyd yn parhau i lunio rhagamcanion o'r boblogaeth, yn seiliedig ar dueddiadau mewn genedigaethau, marwolaethau a mudo a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, ac yn gwneud tybiaethau am dueddiadau posibl yn y dyfodol.

**Nodweddion y boblogaeth**

Rhwng cyfrifiadau 10 mlynedd, mae arolygon blynyddol SYG yn darparu rhywfaint o ystadegau am nodweddion y boblogaeth. Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yw'r mwyaf o'r rhain, sy'n cael ymatebion gan tua 140,000 o gartrefi bob blwyddyn. Mae'r arolygon hyn yn ddigon mawr i lunio ystadegau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, ond yn gyffredinol ni allant lunio ystadegau manwl ar gyfer awdurdodau lleol nac ardaloedd llai.

Mae'r arolygon hyn yn wirfoddol, a defnyddir ystadegau'r cyfrifiad i wneud addasiadau i'r canlyniadau er mwyn caniatáu am y ffaith bod y mathau o bobl sy'n ymateb i arolygon gwirfoddol yn tueddu i fod yn wahanol i'r rheini nad ydynt yn ymateb.

**Amseroldeb**

Cyhoeddodd SYG ystadegau o'r boblogaeth ar lefel genedlaethol ac ALl yn ôl oedran a rhyw o'r cyfrifiad tua 15 mis ar ôl y dyddiad cyfeirio. Er enghraifft, cyhoeddwyd ystadegau o Gyfrifiad 2011 sy'n ymwneud â dyddiad cyfeirio mis Ebrill 2011 ym mis Gorffennaf 2012.

Ar hyn o bryd, cyhoeddir amcangyfrifon blynyddol o'r boblogaeth rhwng cyfrifiadau o fewn 12 mis i'r dyddiad cyfeirio.

Ar hyn o bryd, cyhoeddir ystadegau manwl am nodweddion y boblogaeth a thai o'r cyfrifiad dros gyfnod sy'n amrywio o 18 mis i 3 blynedd i'r dyddiad cyfeirio.

Byddai cyfrifiad ar lein yn golygu y gellid prosesu holiaduron y cyfrifiad yn gyflymach, ac mae'n debyg y byddai ystadegau cyntaf y cyfrifiad ar gael o fewn blwyddyn i ddiwrnod y cyfrifiad.  Yn yr un modd, efallai y gellid cyhoeddi ystadegau eraill yn gyflymach, ond byddai'n broses gymhleth o hyd ac nid yw'n glir eto beth fyddai'n ymarferol.

## A.2 Ystadegau sydd ar gael o gyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon

**Amcangyfrifon o'r boblogaeth**

Byddai cyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon yn darparu ystadegau cywir bob blwyddyn am faint y boblogaeth yn ôl oedran a rhyw - yn genedlaethol, ar gyfer awdurdodau lleol ac ar gyfer ardaloedd bach.  Mae'n debygol y byddai'r rhain ar gael i lawr i lefel OA ond nid yw hyn wedi cael ei brofi'n llawn eto.


Efallai na fyddai'r ystadegau hyn mor gywir â'r amcangyfrifon o'r cyfrifiad, ond gallent fod yn fwy cywir na'r amcangyfrifon blynyddol o'r boblogaeth ar gyfer ALlau a gaiff eu llunio

rhwng cyfrifiadau yn y system bresennol. Yn sicr, byddent yn fwy cywir na'r amcangyfrifon ar gyfer ALlau a gynhyrchwyd tuag at ddiwedd y degawd rhwng cyfrifiadau.
Mae Ffigur 1 yn dangos cymhariaeth rhwng canlyniadau cynnar dulliau sy'n defnyddio data gweinyddol a'r amcangyfrifon dangosol o'r boblogaeth o ganol 2010, wedi'u cario ymlaen i ddiwrnod Cyfrifiad 2011 (h.y. yr amcangyfrifon o'r boblogaeth a luniwyd gan ddefnyddio dulliau presennol, 10 mlynedd ar ôl y cyfrifiad). Mae uchder y bar yn dangos nifer yr awdurdodau lleol o fewn gwahaniaeth canrannol penodol o amcangyfrif Cyfrifiad 2011.

Mae'r siart yn dangos bod y dull sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol fel arfer yn fwy cywir na'r dull a ddefnyddir ar hyn o bryd ar ddiwedd degawd - mae'n cyfateb yn fras i flwyddyn pump o'r system bresennol.  Mae tuedd i danamcangyfrif y boblogaeth yn gyffredinol a byddai arolwg cwmpas yn cael ei ddefnyddio i addasu ar gyfer hyn.

Byddai lefel gyson o gywirdeb yn cael ei chyflawni bob blwyddyn, oherwydd caiff setiau data gweinyddol eu diweddaru'n barhaus, ac mae gwelliannau pellach yn debygol, gan mai megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu'r dulliau newydd.

**Ffigur 1:  Cymharu dulliau sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol ac amcangyfrifon dangosol o'r boblogaeth o ganol 2010 (wedi'u cario ymlaen i ddiwrnod Cyfrifiad 2011) gydag amcangyfrifon o Gyfrifiad 2011**



**Nodweddion y boblogaeth**

Byddai'r arolwg blynyddol gorfodol o 4% o gartrefi yn darparu ystadegau am nodweddion y boblogaeth a thai bob blwyddyn. Byddai'r rhain yn llawer mwy manwl na'r ystadegau blynyddol sydd ar gael o'r system bresennol - ond nid mor fanwl nac mor gywir â'r hyn a geir o gyfrifiad ar lein unwaith bob deng mlynedd.

Maint y boblogaeth sy'n cael ei mesur a chanran y boblogaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr arolwg yw'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gywirdeb yr ystadegau.

**Ystadegau sydd ar gael gan ddefnyddio blwyddyn o ddata**

Gan dybio y caiff detholiad ar hap o gartrefi ei gymryd ar draws Cymru a Lloegr, byddai sampl o 4% o'r boblogaeth yn rhoi amcangyfrif dibynadwy[1] o is-grŵp o'r boblogaeth o tua 800 o bobl - beth bynnag fo'r ardal ddaearyddol dan sylw.

Er enghraifft, gallai hyn fod yn 800 o ddynion di-waith; neu'n 800 o siaradwyr Cymraeg mewn Awdurdod Lleol.

Yn gyffredinol, gellid llunio croesdabl sy'n defnyddio blwyddyn o ddata arolwg pe byddai **gwerth cyfartalog** y 'celloedd' yn y tabl yn 800 neu fwy (byddai gwerthoedd rhai celloedd yn llawer mwy a byddai rhai yn llawer llai).

Yn yr un modd, ar gyfer MSOAs, y mae ganddynt 7,800 o breswylwyr ar gyfartaledd, byddai blwyddyn o ddata arolwg yn darparu ystadegau ystyrlon ar gyfer tabl â thua 10 o gelloedd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y byddai'r rhan fwyaf o ystadegau MSOA sy'n defnyddio blwyddyn o ddata yn seiliedig ar newidynnau unigol.

**Ystadegau sy'n defnyddio mwy na blwyddyn o ddata**

Byddai cyfuno tair blynedd o ddata o'r arolwg (sampl o 12% o'r boblogaeth) yn sicrhau y gellid darparu amcangyfrif dibynadwy ar gyfer is-grŵp o 230 o bobl neu fwy. Er enghraifft, gallai hyn fod yn nifer y gofalwyr mewn ALl sydd o dan 25 oed sy'n darparu llai nag 20 awr o ofal bob wythnos neu nifer y bobl mewn MSOA sydd â salwch hirdymor cyfyngol.

Yn fwy cyffredinol, gellid llunio croesdabl sy'n defnyddio tair blynedd o ddata arolwg pe byddai **gwerth cyfartalog** y 'celloedd' yn y croesdabl yn 230 neu fwy. Ar gyfer MSOAs, mae hyn yn golygu y gellid llunio croesdabl â thua 30 o gelloedd unigol.

Byddai cyfuno pum mlynedd o ddata yn darparu amcangyfrif dibynadwy ar gyfer is-grŵp o 130 o bobl neu fwy.

---

[1] Gweler y drafodaeth yn nes ymlaen ynghylch y cywirdeb y gellid ei gyflawni

Office for National Statistics

Mae Blwch Dd yn crynhoi'r mathau o groesdablau a allai fod yn ddibynadwy ar gyfer ardaloedd daearyddol o feintiau gwahanol, gan ddefnyddio nifer wahanol o flynyddoedd o ddata o'r arolwg.

**Blwch Dd: Ystadegau posibl gan ddefnyddio data'r arolwg**

| Math o ardal | Nifer gyfartalog y preswylwyr | Blwyddyn o ddata<br><br>(trothwy o 800) | 3 blynedd o ddata<br><br>(trothwy o 230) | 5 mlynedd o ddata<br><br>(trothwy o 130) |
|---|---|---|---|---|
| **ALl** | 160,000 | **Croesdablau manwl**<br><br>**tua 200 o gelloedd)** | Croesdablau manwl<br><br>(tua 500 o gelloedd) | Croesdablau manwl iawn<br><br>(tua 1000 o gelloedd) |
| **MSOA** | 7,800 | Rhai ystadegau amrywiol unigol<br><br>(tua 10 o gelloedd) | Croesdablau syml iawn<br><br>(tua 30 o gelloedd) | Croesdablau syml<br><br>(tua 50 o gelloedd) |
| **LSOA** | 1,600 | Ddim ar gael | Rhai ystadegau amrywiol unigol<br><br>(tua 5 cell) | Rhai ystadegau amrywiol unigol<br><br>(tua 10 cell) |
| **OA** | 300 | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ddim ar gael |

Noder bod y gwerthoedd 800 (sampl un flwyddyn), 230 (tair blynedd) a 130 (pum mlynedd) sydd wedi'u cynnwys yma yn agored i ymchwil bellach ond maent yn dangos yr is-grwpiau y gellid darparu ystadegau dibynadwy ar eu cyfer.

Mae Blwch E yn crynhoi'r ystadegau a allai fod ar gael ar gyfer nifer o bynciau a gafodd eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2011.

**Blwch E: Ystadegau sydd ar gael ar gyfer pynciau blaenoriaeth uchel**

| | **Lefel ddaearyddol, a'r blynyddoedd o ddata arolwg sydd eu hangen** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **ALl** | **MSOA** | **LSOA** | **OA** |
| Ethnigrwydd | 1 ar gyfer grwpiau mawr<br>3 ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau eraill<br>5 ar gyfer grwpiau bach iawn | 3 a 5 | 5 | Ddim ar gael |
| Gweithgarwch economaidd | 1 | 3 | 5 | Ddim ar gael |
| Statws priodasol | 1 | 1 ar gyfer categorïau mawr<br><br>3 ar gyfer categorïau eraill | 3 ar gyfer categorïau mawr<br><br>5 ar gyfer categorïau eraill | Ddim ar gael |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Deiliadaeth | 1 | 3 | 3 ar gyfer categorïau mawr<br><br>5 ar gyfer categorïau eraill | Ddim ar gael |
| Cyfansoddiad cartrefi | 1 | 1 ar gyfer mathau o gartrefi mawr<br><br>3 ar gyfer mathau eraill | 5 | Ddim ar gael |
| Math o lety | 1 | 3 | 5 | Ddim ar gael |

**Lefelau cywirdeb**

Po fwyaf o flynyddoedd o ddata arolwg a ddefnyddir, a pho fwyaf yw maint y boblogaeth sy'n cael ei mesur, y mwyaf cywir fyddai'r amcangyfrif. I'r gwrthwyneb, byddai cywirdeb yr amcangyfrifon ar gyfer grwpiau bach iawn o'r boblogaeth yn is.

Gellid llunio ystadegau ar gyfer nodwedd sy'n berthnasol i boblogaeth o 800 o bobl mewn unrhyw ardal ddaearyddol yn seiliedig ar flwyddyn unigol o ddata gyda 'chyfwng hyder' o plws neu finws 40% (480 i 1120 o bobl); hynny yw, gallem fod 95% yn hyderus bod y gwir amcangyfrif yn yr amrediad hwn.

Er bod hwn yn ymddangos fel amrediad cymharol fawr, mae'n werth ystyried maint cymharol poblogaeth o'r fath. Mewn ALl o faint cyfartalog á 160,000 o bobl, mae is-grŵp o 800 o bobl yn cynrychioli 0.5% o'r boblogaeth. Byddai ei gyfleu fel hyn yn golygu y gallem fod 95% yn hyderus y byddai'r gwir amcangyfrif o'r boblogaeth gymesur rhwng 0.3% a 0.7%.

Yn yr un modd, ar gyfer nodwedd sy'n ymwneud ag is-grŵp mwy mewn ALl o faint cyfartalog, gydag 20,000 o bobl er enghraifft (sy'n cynrychioli 12.5%), byddai'r cyfwng hyder yn llawer culach, sef plws neu finws 6.4% (18,720 i 21,280 o bobl). O gymharu, byddai'r gwir amcangyfrif felly rhwng 11.7% a 13.3% o gyfanswm poblogaeth yr ALl.

Byddai'n bosibl llunio ystadegau o gywirdeb tebyg ar gyfer nodweddion sy'n berthnasol i lai o bobl yn y grŵp poblogaeth drwy gyfuno samplau arolwg ar draws nifer o flynyddoedd.

Pe byddem yn defnyddio tair blynedd o ddata, byddem yn gallu llunio ystadegau ar nodweddion sy'n berthnasol i grŵp o 230 o bobl gyda chyfwng hyder o plws neu finws 40% (140 i 320 o bobl).

Drwy gyfuno pum mlynedd o ddata, byddai'n bosibl llunio amcangyfrifon sy'n berthnasol i 130 o bobl gyda chyfwng hyder o plws neu finws 40% (80 i 180 o bobl).

## Goblygiadau ar gyfer ystadegau manylach

Byddai SYG yn dal i gynnwys ystadegau o fewn tablau a gyhoeddwyd lle roedd y niferoedd yn llai nag yn y trothwyon ym Mlwch Dd, ond byddai'r rhain yn llai cywir, a byddai hynny'n cael ei nodi. Er na fyddai'n bosibl gwybod yn bendant beth oedd yr union werthoedd yn yr ardaloedd hyn, byddai'n glir, serch hynny, fod y niferoedd yn fach.

Fodd bynnag, ni fyddai rhai o'r croesdablau manwl iawn ar gyfer ardaloedd daearyddol bach a fyddai'n cael eu darparu gan gyfrifiad ar lein unwaith bob degawd ar gael o gyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon.

Er enghraifft, ni fyddai'n bosibl cyhoeddi ystadegau dibynadwy am iechyd y boblogaeth (o 'da iawn' i 'gwael iawn'), ar gyfer pob grŵp ethnig, mewn grwpiau oedran 10 mlynedd, ar gyfer pob LSOA. Byddai hyn yn creu 850 o gategorïau fesul LSOA (pum categori iechyd, ar gyfer 17 o grwpiau ethnig, ar gyfer 10 grŵp oedran). Gan mai dim ond 1,600 o breswylwyr sydd gan bob LSOA ar gyfartaledd, byddai gan y mwyafrif o'r ystadegau yn y tabl hwn (os nad pob un ohonynt) werth sy'n llawer is na'r trothwy o 130.

Dros amser, wrth i fwy o ddata gael eu rhyddhau o ffynonellau data gweinyddol, efallai y bydd yn bosibl llunio ystadegau mwy manwl ar gyfer ardaloedd bach - incwm y cartref er enghraifft, gan ddefnyddio data o'r systemau treth a budd-daliadau - ond mae angen gwneud llawer mwy o waith i ddeall y ffynonellau data posibl a datblygu'r dulliau gofynnol.

## Amseroldeb

Byddai cyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon gorfodol yn ei gwneud yn bosibl i gyhoeddi ystadegau lefel genedlaethol ac ALl o fewn 12 mis i'r dyddiad cyfeirio.

Gellid cyhoeddi ystadegau yn seiliedig ar bum mlynedd o ddata arolwg o fewn dwy flynedd i'r dyddiad cyfeirio. Er enghraifft, gellid cyhoeddi ystadegau sy'n gysylltiedig â chanol 2020 yng nghanol 2022 gan ddefnyddio data o 2019, 2020 a 2012. Gellid cyhoeddi ystadegau yn seiliedig ar bum mlynedd o ddata o fewn tair blynedd i'r dyddiad cyfeirio.

## Yr Ardaloedd Cynnyrch fel conglfaen

Er bod llawer o ddefnyddwyr yn defnyddio ystadegau ardal gynnyrch (OA), dengys ein tystiolaeth mai dim ond rhai ohonynt sy'n gwneud penderfyniadau neu'n canolbwyntio polisïau ar y lefel OA ei hun. Yn hytrach, maent yn defnyddio OAs fel 'conglfaen' i lunio ystadegau ar gyfer ardaloedd mwy eu hunain. Gallai'r rhain fod yn ddalgylch ysgol, ysbyty neu archfarchnad er enghraifft, neu efallai y byddant am gynnal ardaloedd fel hen ffiniau plwyfi. Drwy grwpio OAs gyda'i gilydd yn y ffordd orau ar gyfer eu hardal o ddiddordeb, gall defnyddwyr lunio ystadegau ar gyfer yr ardaloedd daearyddol wedi'u teilwra hyn.

Gall fod yn bosibl i SYG gynnig ystadegau croesdabl mwy manwl ar gyfer grwpiau wedi'u teilwra o OAs, heb ddarparu'r wybodaeth lefel OA fanwl ei hun o anghenraid. Mae angen mwy o ymchwil er mwyn deall yr hyn y gellid ei gyflawni.

## Blwch F: Enghraifft o'r ystadegau sy'n bosibl gan ddefnyddio sawl blwyddyn o ddata arolwg

Gyda blwyddyn o ddata arolwg, gellid llunio ystadegau dibynadwy ar y canlynol:

- Pobl ag iechyd da, gweddol neu wael ym mhob ALl
- Pobl â salwch hirdymor cyfyngol ym mhob ALl
- Siaradwyr Cymraeg ym mhob ALl yng Nghymru
- Cartrefi lle nad Saesneg yw prif iaith neb, ar gyfer y rhan fwyaf o ALlau
- Gofalwyr (24 oed ac iau) sy'n darparu llai nag 20 awr o ofal di-dâl, ar gyfer dros draean o'r holl ALlau.

Gyda thair blynedd o ddata arolwg, gellid llunio ystadegau dibynadwy ar y canlynol:

- Gofalwyr (24 oed ac iau) sy'n darparu llai nag 20 awr o ofal di-dâl, ym mhob ALl
- Gofalwyr ag iechyd da, gweddol neu wael ym mhob ALl
- Pobl ag iechyd da, sy'n darparu llai nag 20 awr o ofal di-dâl, ym mhob MSOA
- Pobl â salwch hirdymor cyfyngol ym mhob MSOA
- Siaradwyr Cymraeg ym mhob MSOA yng Nghymru
- Cartrefi lle nad Saesneg yw prif iaith neb, ar gyfer traean o'r holl MSOAs
- Pobl ag iechyd da, gweddol neu wael yn y rhan fwyaf o MSOAs.

Gyda phum mlynedd o ddata arolwg, gellid llunio ystadegau dibynadwy ar y canlynol:

- Pobl ag iechyd da neu weddol ym mhob LSOA
- Siaradwyr Cymraeg ar gyfer dros dri chwarter yr holl LSOAs yng Nghymru
- Pobl â salwch hirdymor cyfyngol ym mhob LSOA.